

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 94(2) a (6) o Ddeddf y Coronafeirws 2020 (p. 7), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn deugain niwrnod gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 348 (Cy. 86)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Deddf y Coronafeirws
2020 (Newid Dyddiad Dod i Ben)
(Cymru) 2022**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adran 89(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn darparu bod y Ddeddf yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o 2 flynedd gan ddechrau â'r diwrnod y caiff ei phasio, yn ddarostyngedig i is-adran (2) o'r adran honno ac adran 90 o'r Ddeddf.

Mae adran 90(2) o'r Ddeddf yn darparu y caiff awdurdod cenedlaethol perthnasol, drwy reoliadau, ddarparu nad yw darpariaeth yn y Ddeddf yn dod i ben ar yr adeg y byddai'n dod i ben fel arall a'i bod yn dod i ben yn lle hynny ar adeg ddiweddarach a bennir yn y rheoliadau. Mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod cenedlaethol perthnasol ar gyfer Cymru mewn perthynas â darpariaethau yn Neddf y Coronafeirws 2020 sy'n gymwys o ran Cymru ac a fyddai'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn dyddiad dod i ben darpariaethau penodol yn Neddf y Coronafeirws 2020 i ddiwedd y diwrnod ar 24 Medi 2022. Byddent yn dod i ben fel arall ar ddiwedd y diwrnod ar 24 Mawrth 2022, fel y darperir ar ei gyfer gan adran 89 o'r Ddeddf honno.

Ni luniwyd asesiad effaith ar gyfer yr offeryn hwn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 94(2) a (6) o Ddeddf y Coronafeirws 2020 (p. 7), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn deugain niwrnod gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 348 (Cy. 86)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Deddf y Coronafeirws
2020 (Newid Dyddiad Dod i Ben)
(Cymru) 2022**

<i>Gwnaed</i>		<i>21 Mawrth 2022</i>
<i>Gosodwyd</i>	<i>gerbron</i>	<i>Senedd</i>
<i>Cymru</i>		<i>22 Mawrth 2022</i>
<i>Yn dod i rym</i>		<i>23 Mawrth 2022</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 90(2) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(1).

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Newid Dyddiad Dod i Ben) (Cymru) 2022.

(1) 2020 p. 7. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 90(2) o'r Ddeddf wedi ei roi i "a relevant national authority" ("corff cenedlaethol perthnasol"). O dan adran 90(7) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod cenedlaethol perthnasol mewn perthynas â'r pŵer i estyn dyddiad dod i ben darpariaeth yn y Ddeddf sy'n rhychwantu Cymru a Lloegr ac sy'n gymwys o ran Cymru, ac a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru pe bai wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth na ellid ond ei gwneud â chydysyniad un o Weinidogion y Goron o fewn ystyr "Minister of the Crown" yn Neddf Gweinidogion y Goron 1975).

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Mawrth 2022.

Newid dyddiad dod i ben

2.—(1) O ran y darpariaethau yn Neddf y Coronafeirws 2020 a bennir ym mharagraff (2)—

- (a) nid ydynt yn dod i ben ar yr adeg y byddent yn dod i ben fel arall yn rhinwedd adran 89 o'r Ddeddf, a
- (b) maent yn dod i ben yn lle hynny ar ddiwedd y diwrnod ar 24 Medi 2022.

(2) Y darpariaethau yw—

- (a) adran 38(1), i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru;
- (b) adran 82, i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru;
- (c) yn Rhan 1 o Atodlen 17—
 - (i) paragraff 2;
 - (ii) paragraff 3, i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru;
 - (iii) paragraff 4, i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru;
 - (iv) paragraff 7;
 - (v) paragraff 8.

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
21 Mawrth 2022